# Gêm Fwrdd Fy Ymweliad

Prisoners · Families · Communities
A Fresh Start Together

## Pwrpas

Mae'r adnodd hwn yn ceisio hwyluso sgwrs rhwng plentyn neu berson ifanc a darparwr gofal neu weithiwr proffesiynol. Mae wedi'i anelu at blant wyth oed a throsodd, ac mae adnodd jig-so arall ar gael i blant iau.

Gellir defnyddio'r gêm hon i baratoi ar gyfer ymweliad cyntaf â charchar. Bydd y gêm yn dangos y daith o'r man cyrraedd i'r neuadd ymweld fel bod y plentyn yn gwybod beth i'w ddisgwyl a phwy y gallai ei gyfarfod ar y ffordd. Gallwch hefyd ei defnyddio i ddechrau sgwrs ynglŷn â phrofiad y plentyn neu'r person ifanc o ymweld â'r carchar. Drwy ateb y cwestiynau ynglŷn â beth sy'n digwydd yn ystod ymweliad, gallwch ofyn i'r plentyn sut roedd yn teimlo, beth y gwnaeth ei fwynhau, neu beth nad oedd yn ei hoffi. Mae'r atebion i'r cwestiynau wedi'u seilio ar yr hyn sy'n digwydd yn y rhan fwyaf o garchardai, ond gallai rhai gweithdrefnau a phrosesau amrywio gan ddibynnu ar y sefydliad.


Ewch i wefan Pact i ddod o hyd i fwy o adnoddau ar gyfer gweithwyr proffesiynol, darparwyr gofal, a phlant a phobl ifanc, gan gynnwys fideos ac animeiddiadau a chopi PDF o'n llyfr, Wedi eu Cloi Allan, sy'n ceisio helpu oedolion i gynorthwyo plant i ymdopi â gweld rhywun maent yn ei garu yn mynd i'r carchar.

## Sut i chwarae

Argraffwch bob tudalen o'r adnodd. Torrwch y cardiau cwestiynau a rhowch nhw mewn sypiau yn ôl eu lliw. Torrwch o amgylch y cownteri a'r dis, os oes eu hangen.

Mae pob chwaraewr yn dechrau drwy roi ei gownter ar y cerbyd o'i ddewis (bws, trên neu gar). Bydd y chwaraewr cyntaf yn ateb cwestiwn o'r swp gwyrddlas. Bydd y chwaraewr arall yn gofyn y cwestiwn. Os bydd y chwaraewr cyntaf yn ateb y cwestiwn yn gywir, gall rolio'r dis a symud ei gownter ar hyd y bwrdd. Bydd y chwaraewr nesaf yn cymryd ei dro yn yr un modd.

Mae'r camau hyn yn cael eu hailadrodd, a'r chwaraewyr yn dewis cwestiynau o'r cardiau sy'n cyfateb i liw eu cownter ar y bwrdd. Rhaid i unrhyw un sy'n glanio ar arwydd 'Dim Mynediad' gael dau gwestiwn yn gywir er mwyn symud ymlaen. Y person cyntaf i gyrraedd y neuadd ymweld sy'n ennill.


Gorffen
DIM MYNEDIAD
DIM MYNEDIAD
DIM MYNEDIAD
VISITOR CENTRE
CROESO
Pact
DIM MYNEDIAD
Cychwyn
DIM MYNEDIAD

## 1

**Pa ddogfen adnabod y mae ar blant a phobl ifanc dan 18 oed ei hangen er mwyn ymweld â rhywun yn y carchar?**

**A.** pasbort neu dystysgrif geni

**B.** tystysgrif geni A phasbort

**C.** trwydded yrru

## 2

**A all plant a phobl ifanc dan 16 oed ymweld ar eu pen eu hunain?**

**A.** Gallant

**B.** Na allant

**C.** Dim ond mewn amgylchiadau arbennig a gyda gweithiwr proffesiynol

## 3

**Pe baech eisiau rhoi llyfr i rywun sydd yn y carchar, sut fyddech chi'n ei gael iddo? (dau ateb cywir)**

**A.** ysgrifennu ei enw a'i rif carchar y tu mewn a mynd â'r llyfr gyda chi ar eich ymweliad i'w roi iddo

**B.** ysgrifennu ei enw a'i rif carchar a gadael y llyfr gyda staff y carchar i'w brosesu

**C.** archebu o siop ar-lein a gymeradwywyd gan y carchar, a gofyn i'r siop anfon y llyfr ato'n uniongyrchol

## 4

**Pa rai o'r datganiadau isod sy'n gywir?**

**I ymweld â rhywun sydd yn y carchar rhaid i chi:**

**A.** fod ar restr ymwelwyr y person hwnnw

**B.** archebu eich ymweliad o leiaf 24 awr ymlaen llaw

**C.** dod â'r ddogfen adnabod briodol gyda chi

## 5

**Faint o arian all oedolyn ei gario yn ystod ymweliad?**

**A.** £20 mewn darnau arian

**B.** £30 mewn darnau arian

**C.** £30 mewn arian papur

**D.** Mae'r rheolau'n wahanol ym mhob carchar

## 6

**Beth mae'r staff carchar sy'n gwisgo gwisg swyddogol ac yn edrych ar eich dogfen adnabod yn cael eu galw?**

**A.** gardiau

**B.** swyddogion

**C.** OSGs

## 7

**Pa rai o'r isod na all plant a phobl ifanc eu gwisgo i ddod i'r carchar? (dau ateb cywir)**

**A.** capiau/hetiau

**B.** hwdis

**C.** sanau

## 8

**Pa rai o'r eitemau isod y bydd angen i chi a'ch teulu eu gadael mewn cwpwrdd clo? (tri ateb cywir)**

**A.** bagiau

**B.** ffonau

**C.** cotiau

**D.** dogfen adnabod

✂ Torrwch o amgylch pob cerdyn cwestiwn

## 9

**Pan fyddwch yn mynd drwy'r man diogelwch, beth fydd angen i chi ei roi yn y bocs sy'n mynd drwy'r sganiwr? (tri ateb cywir)**

**A.** beltiau

**B.** watshys

**C.** esgidiau

**D.** sbectol

## 10

**Weithiau byddwch yn cael eich sganio gan aelod o staff y carchar â theclyn yn ei law. Bydd y teclyn yn gwneud sŵn os yw'n canfod beth?**

**A.** metal

**B.** gwm cnoi

**C.** sanau drewllyd

## 11

**Weithiau bydd angen i aelod o staff y carchar eich chwilio drwy deimlo eich corff â'i ddwylo. Am beth fydd y staff yn chwilio?**

**A.** unrhyw eitemau rydych wedi anghofio eu gadael yn eich cwpwrdd clo

**B.** byrbrydau

## 12

**Os oes gennych gwestiwn am y chwiliad neu os ydych yn poeni, gyda phwy y gallwch siarad?**

**A.** yr oedolyn rydych yn ymweld gydag ef/hi

**B.** staff y carchar

**C.** staff y ganolfan ymwelwyr

**D.** pob un o'r uchod

## 13

**Pa fridiau o gŵn sydd fel arfer yn cael eu hyfforddi fel cŵn chwilio mewn carchar? (dewiswch faint fynnwch chi)**

**A.** alsatians

**B.** pwdls

**C.** labradors

**D.** sbaniels

## 14

**Pam y mae carchardai yn defnyddio cŵn i chwilio ymwelwyr?**

**A.** mae ganddyn nhw synnwyr arogli da iawn a gellir eu hyfforddi

**B.** mae cŵn yn cael llai o gyflog na'r staff

## 15

**Am beth y mae'r cŵn chwilio yn cael eu hyfforddi i chwilio?**

**A.** eitemau anghyfreithlon

**B.** teganau gwichlyd

**C.** bisgedi

## 16

**Beth fydd y ci chwilio yn ei wneud os bydd yn dod o hyd i rywbeth y mae wedi cael ei hyfforddi i**

**A.** eistedd

**B.** cyfarth

**C.** rholio drosodd

Torrwch o amgylch pob cerdyn cwestiwn

**17**

**Gawn ni fynd i'r toiled yn y neuadd ymweld?**

**A.** cewch

**B.** na chewch

**C.** cewch, ond bydd angen i aelod o staff y carchar ddod gyda chi i agor y drws ac efallai y cewch eich chwilio eto

**18**

**Pa rai o'r rhain sydd yn y neuadd ymweld fel arfer?**

**A.** lle paned neu beiriant yn gwerthu diodydd a byrbrydau

**B.** gemau neu bethau i chi eu gwneud wrth eich bwrdd neu mewn lle chwarae

**C.** teledu neu gemau cyfrifiadurol

**19**

**Ydy hi'n iawn i chi roi cwtsh i'r person rydych wedi dod i'w weld?**

**A.** ydy

**B.** nach ydy


**20**

**Enwch ddwy ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â rhywun agos atoch sydd yn y carchar?**

Torrwch o amgylch pob cerdyn cwestiwn



Cownteri



Dis

# Gêm Fwrdd – rhagor o wybodaeth ar gyfer y cwestiynau

1. Pa ID sydd ei angen ar blant a phobl ifanc dan 18 oed i ymweld â rhywun yn y carchar?

**Ateb: A.** Pasport neu Dystysgrif Geni. Os nad oes gan y plentyn y naill na'r llall, gellir prynu copi o'u tystysgrif geni am oddeutu £15 gan yr awdurdod lleol lle cofrestrwyd eu genedigaeth.

2. Oes hawl gan blant a phobl ifanc dan 16 oed ymweld ar eu pen eu hunain?

**Ateb: C.** Mewn rhai amgylchiadau lle nad oes oedolyn yn fodlon neu'n gallu ymweld ar y cyd â'r person ifanc, efallai y bydd cymorth ar gael gan dîm gwasanaethau teuluoedd y carchar. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.gov.uk/government/collections/prisons-in-england-and-wales**

3. Pe baech chi eisiau rhoi llyfr i un o'ch anwyliaid sydd yn y carchar, sut byddech chi'n ei roi iddyn nhw?

**Ateb: B.** Mae swyddogion yn chwilio drwy'r llyfrau cyn eu rhoi i garcharorion. Gellir rhoi llyfrau sain ar ffurf CD neu gasét.

4. Pa rai o'r datganiadau isod sy'n wir?

Atebwch y Cyfan

5. Faint o arian mae oedolyn yn gallu mynd ag e ar ymweliad?

**Ateb: D.** Mae'r swm yn amrywio ym mhob carchar ond mae fel arfer oddeutu £20-30. I gael y canllawiau diweddaraf, cysylltwch â'r gwasanaeth teuluoedd yn y carchar. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.gov.uk/government/collections/prisons-in-england-and-wales**

6. Beth yw teitl staff y carchar sy'n gwisgo iwnifform ac yn gwirio eich ID?

**Ateb: C.** Swyddogion Gradd Cymorth Gweithredol (OSGs) sy'n cadw'r carchar i fynd. Nhw sy'n staffio'r giât, yn goruchwylio ymwelwyr, yn monitro teledu cylch cyfyng ac yn rheoli danfoniadau. Ychydig o gyswllt maen nhw'n ei gael â phobl yn y carchar. Mae Swyddogion Carchar yn gweithio'n uniongyrchol gyda charcharorion, gan eu cefnogi a'u cadw nhw'n ddiogel.

7. Pa rai o'r canlynol nad yw plant a phobl ifanc yn cael eu gwisgo yn y carchar?

**Ateb: A and B.** I gael y canllawiau diweddaraf, cysylltwch â'r gwasanaeth teuluoedd yn y carchar. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i: **www.gov.uk/government/collections/prisons-in-england-and-wales**

8. Pa rai o'r eitemau isod fydd angen i chi a'ch teulu eu gadael mewn locer?

**Ateb: A, B and C.** Gellir mynd â rhai eitemau fel clytiau ar gyfer babanod neu feddyginiaeth i mewn, ond i gael y canllawiau diweddaraf, cysylltwch â'r gwasanaeth teuluoedd yn y carchar.

9. Pan fyddwch chi'n mynd drwy'r drefn ddiogelwch, beth sydd angen i chi ei roi yn yr hambwrdd sy'n mynd drwy'r sganiwr?

**Ateb: A, B and C.** Mae hon yn broses debyg iawn i drefn ddiogelwch maes awyr. Bydd staff yn cynorthwyo'r rhai sy'n ymweld am y tro cyntaf a gallan nhw roi gwybod i chi beth i'w roi yn yr hambwrdd

10. Weithiau, bydd aelod o staff y carchar yn eich sganio â dyfais llaw. Bydd y ddyfais yn gwneud sŵn bipio os bydd yn canfod beth?

**Ateb: A.** Unwaith eto, mae'r broses hon yn debyg iawn i drefn ddiogelwch maes awyr.

**11. Weithiau bydd angen i aelod o staff y carchar chwilio eich corff drwy batio eich breichiau, eich coesau a'ch torso gyda'u dwylo. Beth fyddan nhw'n chwilio amdano?**

**Ateb: A.** Dim ond staff benywaidd fydd yn chwilio cyrff ymwelwyr benywaidd.

**12. Os oes gennych chi gwestiwn am y chwiliad neu os ydych chi'n poeni am hynny, gyda phwy allwch chi siarad â nhw?**

**Ateb: D.** Mae'n bwysig annog y plentyn neu'r person ifanc i ddweud wrth rywun beth maen nhw'n poeni amdano, neu os ydyn nhw eisoes wedi ymweld - beth oedd yn anodd neu'n peri gofid iddyn nhw.

**13. Pa fridiau o gŵn mae carchardai fel arfer yn eu hyfforddi fel cŵn chwilio?**

**Ateb: C and D.** Cŵn labrador a spniel sy'n cael eu defnyddio amlaf fel cŵn chwilio oherwydd eu synnwyr arogl gwych a'u gallu i gael eu hyfforddi. Mae gan y cŵn gysylltiad arbennig â'u hyfforddwr ac maent hyd yn oed yn byw gyda nhw. Maen'n bosibl y byddwch chi'n gweld cŵn alsasaidd/cŵn defaid almaenig yn y carchar ond maent yn cael eu defnyddio at ddibenion diogelwch yn hytrach na chwilio.

**14. Pam mae carchardai'n defnyddio cŵn i chwilio cyrff ymwelwyr?**

**Ateb: A.** Mae ganddyn nhw synnwyr arogl gwych ac maen nhw'n ddeallus iawn. Maen nhw'n ddrud i'w hyfforddi, eu cadw a'u gofalu amdanynt ond maent yn effeithiol iawn.

**15. Am beth mae'r cŵn chwilio yn chwilio amdano?**

**Ateb: A.** Mae'r cŵn wedi'u hyfforddi i chwilio am gyffuriau, ffonau ac eitemau gwaharddedig eraill (eitemau nad ydynt yn cael eu caniatáu yn y carchar am resymau diogelwch).

**16. Beth fydd y ci chwilio'n ei wneud os bydd yn dod o hyd i rywbeth y mae wedi cael ei hyfforddi i chwilio amdano?**

**Ateb: A.** Bydd y ci'n eistedd i lawr ac yn pwyntio gyda'i drwyn i'r man lle mae'n credu ei fod wedi dod o hyd i rywbeth. Mae wedyn yn cael ei wobrwyo gyda trît neu hoff degan!

**17. Allwch chi ddefnyddio'r toiled yn y neuadd ymweld?**

**Ateb: C.** Gall y plentyn/person ifanc neu'r oedolyn sydd gyda nhw ofyn iddynt gael eu hebrwng. Mae'n bosib y byddan nhw'n cael eu chwilio drwy batio cyn ac ar ôl mynd i'r toiled.

**18. Pa rai o'r rhain sydd ar gael yn y neuadd ymweliadau fel arfer?**

**Ateb: A and B.** Bydd gwasanaeth teuluoedd y carchar yn darparu teganau, gemau a gweithgareddau i blant a phobl ifanc.

**19. Ydych chi'n cael rhoi cwtsh i'r person rydych chi'n ymweld â nhw pan fyddwch chi'n eu gweld?**

**Ateb: A.** Gallwch roi cwtsh wrth gyrraedd ac wrth ddweud hwyl fawr. Efallai y bydd plant iau yn cael eistedd ar lin y carcharor – ond gallwch ofyn i'r tîm gwasanaethau teuluoedd yn y carchar am hyn.

**20. Enwch ddwy ffordd arall o gadw mewn cysylltiad â'ch anwyliaid yn y carchar?**

**Ateb: llythyr, e-bost, neges llais a galwad fideo.** Mae rhagor o wybodaeth ar gael yma: **www.prisonersfamilies.org/staying-in-touch**